Dramâu Minny Street

BLE MA FA? - DT Davies
Cast: Hannah Roberts; Mair Treharne; Elinor Patchell; Glyn Evans ac Owain Llyr Evans.

Yn dilyn llwyddiant y Cwmni Drama yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd 2008 dan gyfarwyddyd Hywel Gwynfryn, cafodd y Cwmni wahoddiad gan yr Eisteddfod Genedlaethol i berfformio drama un act yn Theatr y Maes yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010. Gan nad oedd Hywel ar gael y tro hwn i gyfarwyddo fe gytunais i wneud.

Y cam cyntaf felly oedd dod o hyd i ddrama a'r penderfyniad oedd y byddem yn chwilio am ddrama weddol ddifrifol yn hytrach na chomedi. Doedd hi ddim yn rhwydd. Rhaid oedd cael drama oedd yn addas i'w pherfformio gan gwmni capel ac roedd yn rhaid wrth gwrs ystyried y cast oedd ar gael. Ymhen hir a hwyr ar ôl darllen nifer fawr o ddramâu ac ar ôl gofyn cyngor sawl un ym myd y ddrama fe benderfynais mai un o glasuron y byd drama yng Nghymru fyddai orau sef *'Ble Ma Fa?'* gan D.T.Davies.

Popeth yn iawn felly, 'roedd drama gennym ac fe gytunodd pump o aelodau'r Cwmni i gymryd rhan ac aethom ati. Ond, fe gododd problem. Gwyddwn y byddai'n rhaid cael caniatâd yr hwn oedd yn berchen ar yr hawlfraint a thalu ffi cyn perfformio'n gyhoeddus, gan fod deddf gwlad yn mynnu hyn am nad oedd 70 o flynyddoedd wedi mynd er marw D.T. Davies. Fel arfer nid yw hyn yn broblem. Ond y tro hwn ces drafferth fawr. Doedd y wasg a gyhoeddodd y ddrama ddim yn bod mwyach ac nid oedd yn nwylo un o weisg presennol Cymru. Ymholais y Cyngor Llyfrau a thrwyddynt hwy y Llyfrgell Genedlaethol ond doedd neb yn gallu fy helpu.

Yna ces wybod bod merch D.T. Davies, Miss Sallie Davies, yn byw yn Abertawe a gyda chymorth aelod o Minny Street ces hyd i'w rhif ffôn a chaniatâd i'w ffonio. Cawsom sgwrs hyfryd ond doedd hi ddim ychwaith yn gwybod pwy oedd yn berchen ar yr hawlfraint. Roedd hi'n hapus iawn i feddwl y byddai'r ddrama'n cael ei pherfformio eto felly gyda'r holl wybodaeth am fy ymdrechion hyd hynny a'r ffaith fy mod wedi cael caniatâd Miss Davies es at Gyfarwyddwr a Threfnydd yr Eisteddfod i ofyn am eu caniatâd hwythau i berfformio yn yr Wyl heb allu talu hawlfraint a heb felly gael caniatâd ysgrifenedig perchennog yr hawlfraint. Fe gytunon nhw y gallem ei pherfformio gan ein bod wedi gwneud pob ymdrech. Gyda llaw, cafodd Miss Sallie Davies ei phen blwydd yn gant oed dros yr haf.

Cawsom berfformio yn Theatr y Crwys cyn mynd i Lyn Ebwy ac rydym yn diolch yn fawr i'n ffrindiau yn y Crwys am gael benthyg y theatr. Diolch hefyd i aelodau'r cast ac i Dilys, Dianne ac Andrew a Peter a Rhian am roi benthyg celfi ac offer i ni er mwyn gwisgo'r set nôl yng nghyfnod dechrau'r ugeinfed ganrif. Buom yn ffodus hefyd i fenthyg rhai o'r gwisgoedd gan Dianne. Rhaid oedd llogi fan i fynd â'r set i Lyn Ebwy ar gyfer yr ymarfer yr wythnos cyn yr Eisteddfod ac eto ar gyfer y perfformiad. Diolch i Peter, Iolo, Dyfrig a Glyn am eu cymorth gyda'r gwaith a diolch i Helen Emanuel-Huws ac Elfrys am eu cymorth cefn llwyfan, i Rhun am ein cefnogi tra bu Elfrys i ffwrdd ac i Dyfrig Davies am ei waith didrafferth gyda'r goleuadau a'r sain.

'Rydym yn ffodus ym Minny Street bod gennym aelodau ymroddgar, dawnus sy'n barod iawn i roi o'u hamser i ddod i ymarferion yn gyson. Rwy'n ddyledus iawn i'r cast a'r criw am eu hymdrechion glew.

Gill Griffiths

GWELLHAD BUAN - David Jones
Cast: Andrew Bartholomew; Zac Davies; John Albert Evans; Rhiannon Gregory; Glyn Jones; Eleri Morgan a Gwenda Morgan

Roedd Nos Iau 15 Gorffennaf yn noson fawr yn hanes Cymdeithas Ddrama Minny Street. Caem weld perfformiad o *'Ble Ma Fa?'* gan D.T.Davies â Gill Griffiths yn cynhyrchu cyn iddynt ymddangos ar lwyfan Theatr y Maes yn Eisteddfod Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd. Joye oedd cynhyrchydd yr ail ddrama sef *'Gwellhad Buan'* gan David Jones. Wn i ddim o ble mae Joye a Gwenda'n cael gafael ar y campweithiau y maen nhw'n darganfod i ni, ond erbyn hyn rwy'n wyliadwrus iawn pan fyddant yn ein sicrhau mai dim ond dwy neu dair llinell fydd yn rhaid i ni ddysgu! Fel arfer, eleni 'roeddem dipyn bach yn hwyr yn dechrau arni!

Un peth y gallwch fod yn sicr ohono yw bod y ddrama a gaiff ei pherfformio gan grwp Gill yn mynd i fod dipyn yn fwy uchelgeisiol o ran safon ac ysbryd na'n cynigion ni, ond rwy'n amau os ydyn nhw'n cael hanner cymaint o sbort â ni! Pan welais i'r sgript gofynnais, *"Arhoswch funud! Ife fi yw 'Megan: Gwraig Oedrannus'? Mae gan bawb ei deimlad!"* Rwy'n credu bod Joye a Gwenda wedi meddwl mod i o ddifrif oherwydd ar y rhaglen mae Megan i lawr fel 'Cyfaill i Tom'! Zac oedd â'r mwyaf i ddysgu. Wn i ddim sut mae Zac yn gwneud ac yntau'n dal i weithio, ond mae e'n ifanc! A dyw Zac byth yn cwyno! Mae Eleri Morgan yn ddigon o wyrth. Dyna lle'r oedd hi'n bwydo Mari Fflur ac yn gofalu amdani, ac yna'n cyrraedd ein rihyrsals shambolic ni mewn pryd bob tro.

Heblaw amseru proffesiynol mae gan Andrew ddoniau eraill, sef ei fod yn dysgu ei ran yn ddiymdrech i bob ymddangosiad a hefyd yn gallu peidio â chwerthin pan na ddylai! Dawn brin! Un arall y mae ganddo ddawn comedïwr yw Glyn Jones ac mae het bellach yn rhan o'i bersona llwyfannol! John Albert chwaraeodd ran y Doctor. Dych chi byth yn hollol sicr beth fydd yn digwydd pan fydd ef ar y llwyfan ac mae hynny'n ychwanegu at y diddordeb! Fel bob tro arall cawsom lawer o hwyl yn ei gwmni a thrannoeth i'r perfformiad 'roedd yn hedfan i Richmond yn yr Unol Daleithiau i gynnal cyrsiau Cymraeg! Fel arfer, bu'n rhaid i Gwenda lenwi bwlch a ninnau'n brin o 'actores o fri' i chwarae rhan Gwen er fy mod i'n credu mai rhan i ddyn oedd honno i ddechrau! Ond ta waeth, mae Gwenda bob amser yn barod i wneud unrhyw beth a'i wneud â sglein, a hithau sy'n helpu Joye gyda'r holl drefniadau. Gwenda ffeindiodd y troli a'r het binc arbennig i fi a'r ffrog hefyd, rwy'n credu, ond fy syniad i oedd y popsocs!

Dyrinos oedd y Cofweinydd. Mae honno'n swydd bwysig. Rwy'n gwybod oherwydd rwyf wedi'i gwneud hi! Ac un arall bwysig oedd y rheolwr llwyfan sef Dianne. Ble fyddem ni heb Dyfrig yn gofalu am y goleuo a'r sain? Mae bob amser yn amyneddgar a dirwgnach, ac yn dal i wenu! Ond y comedi orau oll fyddai un ohonom ni'n rihyrsio drama fel *"Gwellhad Buan"*. Byddai honno'n werth ei gweld!

Rhiannon Gregory